CYNLLUN AC ASESIAD GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD FFORWM Y CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 29ain Ebrill 2005, am 10.30am
Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn Bresennol

Y Cynghorydd D Lewis (C)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd P A Rees	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd A Robinson	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd B Hall	Cyngor Sir Penfro
Y Cynghorydd K Evans	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd R R Hayes	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Swyddogion

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Philip Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Hugh Towns	Cyngor Sir Caerfyrddin
Roy Probert	Dinas a Sir Abertawe
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Carol A Williams	Cyngor Sir Penfro / Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (DO Cymru)
Andy Street	SLR Consulting Ltd

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd P Palmer	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd R G Harris	Cyngor Sir Ceredigion
Mrs M Taylor	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Y Cynghorydd P A Hacking	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr

2. Cofnodion cyfarfod y Fforwm ar 3ydd Rhagfyr 2004

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol 28ain Ionawr 2005 – Derbyniwyd.

4. Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol 24ain Chwefror 2005 – Derbyniwyd.

5. Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol 15fed Ebrill 2005 - Derbyniwyd.

Eitem 2: Cyfarfod rhwng Chadeiryddion y Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol a Carwyn Jones AC.

Dywedodd GW y canlynol:

- Trefnwyd y cyfarfod yn bennaf i drafod cyllid ar gyfer cyfleusterau gwastraff ar draws Cymru a'r buddsoddiad cyfalaf gofynnol i gyflawni'r strategaethau rhanbarthol;
- Roedd yn siomedig felly y tarfwyd ar y cyfarfod a'i ddefnyddio'n bennaf fel cyfrwng i Dorfaen gyflwyno achos eu cynnig Amcan Un aflwyddiannus am gynllun ym Mhanteg ar gyfer gwaith compostio ac ailgylchu. Canlyniad y mater hwnnw oedd i Dorfaen gytuno ar unrhyw gyfraniad ariannol ychwanegol gyda'i bartneriaid ac ailgyflwyno hyn i LlCC;
- Ar y mater hwn, roedd tua £10M ar ôl yn y gronfa Amcan Un ac roedd 8 cynnig wedi'u cyflwyno;
- Awgrymodd CJ y dylai awdurdodau ddechrau cynllunio ar gyfer y cyllid strwythurol newydd gan fod ceisiadau cynnar yn fwy tebygol o lwyddo;
- Anogodd CJ yr awdurdodau i gydweithio ar wastraff a chynllunio gwastraff, gyda'r bygythiad o symud y cyfrifoldeb oddi wrth awdurdodau lleol - er nad oedd am wneud hynny;
- Gofynnodd CJ i awdurdodau lleol gynhyrchu papur o bosibiliadau cyllid ar gyfer gwastraff (drwy CLlLC); ac
- Awgrymodd CJ ddisgwyliad y byddai Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol yn ffurfio cynigion am gyllid strwythurol.

Gweithredu: GW i roi nodyn i Aelodau'n cadarnhau'r uchod.

Nodwyd bod cofnodion y GTRh yn rhai drafft (am nad oeddent wedi'u derbyn gan Grŵp y Swyddogion). Hysbyswyd aelodau bod diwygiad i'r geirio wedi'i bennu a bydd y cofnodion a dderbyniwyd yn cael eu dosbarthu cyn hir. **Gweithredu**: CM.

6. Cynnydd ar Gynigion i gwrdd â gofynion y Cynllun Lwfans Tirlenwi (Cyflwyniad gan SLR Consulting Ltd)

Rhoddodd Andy Street gyflwyniad ar y cynigion i gwrdd â gofynion y Cynllun Lwfans Tirlenwi. Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad ac felly nid oes angen ei ailadrodd.

Roedd y cyflwyniad yn crynhoi'r cynigion a'r cynnydd hyd yn hyn ym mhob un o'r awdurdodau cyfansoddol ar gwrdd â gofynion y Cynllun Lwfans Tirlenwi, gan amlygu datblygiadau allweddol ar draws y rhanbarth a rhwystrau posib sy'n bodoli.

Wedi'r cyflwyniad, gadawodd Andy Street y cyfarfod.

7. <u>Contract y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol</u>

- **Adroddiad Monitro Blynyddol Cyntaf**

Cadarnhaodd GW mai un o ofynion contract y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol yw *"paratoi a chyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol ym mhob blwyddyn o'r contract"*. Crynhodd GW gynnwys a phrif ganlyniadau'r adroddiad yn fyr ac amlygu'r bylchau data sy'n bodoli ar hyn o bryd. **Cytunwyd** ar yr adroddiad.

- **Adroddiad ar Wastraff Peryglus**

Cadarnhaodd GW mai un o ofynion eraill y contract yw *"cynhyrchu adolygiad ar unwaith o'r CGRh mewn perthynas â chynllunio gwastraff peryglus, gan ymgynghori â Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol.... er mwyn paratoi a chyhoeddi polisïau neu feini prawf lleoliadau fel adendwm i'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol a fydd yn arwain cynigion y dyfodol ar gyfer cyfleusterau trin a gwaredu gwastraff peryglus"*.

Dywedodd GW bod yr Adroddiad Drafft, a baratowyd yn gyntaf gan Dde-ddwyrain Cymru, wedi'i 'deilwra' gan y ddau ranbarth arall er mwyn cael cysondeb ar draws Cymru. Bydd yr Adroddiad Drafft ar Wastraff Peryglus yn destun ymgynghoriad cyhoeddus / budd-ddeiliaid allweddol. Nodwyd y bydd yr Adroddiad yn cael ei roi ar y wefan a bydd cyfres o ddatganiadau cysylltiedig i'r wasg yn ceisio codi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb y cyhoedd. Ochr yn ochr â hyn, cynhelir ymgynghoriad budd-ddeiliaid i gysylltu â diwydiant / busnes / y sefydliadau amrywiol y mae hyn o ddiddordeb personol iddynt.

Nodwyd hefyd fodd bynnag, bod LlCC ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn anhapus gyda chynnwys yr adroddiadau ar draws Cymru a threfnwyd cyfarfod ar gyfer dydd Llun 23ain Mai i drafod yr adroddiadau ymhellach.

Cytunwyd ar yr adroddiad ymgynghori drafft.

6. Ymchwil Mapio GIS: Y Cynnydd Diweddaraf

Cyflwynodd CM y canlynol:

- Enillodd *RPS Planning, Transport and Environment* gontract LlCC i gyflawni'r ymchwil;
- Mae pwyslais cyfredol y gwaith yn troi o amgylch casglu'r data angenrheidiol;
- Cynhaliwyd y ddau gyfarfod Grŵp Llywio cyntaf ar 6ed a 28ain Ebrill yn ôl eu trefn, a mynychodd swyddogion o RPS, LlCC, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cymdeithas y Swyddogion Cynllunio a thri chydlynydd rhanbarthol. Trefnwyd cyfarfod terfynol y Grŵp Llywio ar 2il Mehefin;
- Mae'r drafodaeth hyd yma wedi canolbwyntio ar y meini prawf / pwysiadau i'w cynnwys yn y model. Nodwyd yr ymdrinnir â diffygion adroddiad Cam 1 (h.y. cynhwysiad haenau topograffi a daeareg);
- Bydd adroddiad drafft ar gael erbyn 1af Mehefin a'r adroddiad terfynol erbyn diwedd Mehefin; a
- Chynhelir seminar rhannu gwybodaeth a hyfforddi ar lefel Cymru gyfan ddydd Mawrth 12fed Gorffennaf a bydd cyflwyniadau dilynol yn cael eu trefnu ar gyfer pob un o'r grwpiau rhanbarthol.

O ran casglu data, diolchodd CM i'r rheiny a oedd wedi ymateb i'r ceisiadau amrywiol am ddata. Dosbarthodd CM dabl a oedd yn nodi data'r awdurdod lleol a dderbyniwyd hyd yn hyn ac yn fwy pwysig, y cyfresi data sy'n dal i fod ar goll. **Gweithredu:** Lle bo modd, pob awdurdod i ddarparu'r data sydd ar goll erbyn diwedd dydd Gwener 6ed Mai.

7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - I'w gadarnhau.

8. Unrhyw fater arall

Soniodd CM am gyfle i ymweld â ffatri MBT yng Nghaerlŷr. Nodwyd bod posibilrwydd trefnu ymweliad ar gyfer pob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru, yn agored i swyddogion ac Aelodau. Gofynnwyd i swyddogion adrodd yn ôl ar fynegiadau o ddiddordeb a'r niferoedd sy'n debygol o ddymuno bod yn bresennol erbyn dydd Mercher 4ydd Mai.